**Atgyfodiad ac Esgyniad Crist**

**Galwad i Addoli:**
Codwch eich pennau, O byrth!
Ymddyrchefwch, O ddrysau tragwyddol!
i frenin y gogoniant ddod i mewn.
Pwy yw'r brenin gogoniant hwn?
Arglwydd y Lluoedd, ef yw brenin y gogoniant.
(Salm 24:7,10)

**Darllen: Salm 47; Effesiaid 1:15–23**

**Gweddi:**
Hollalluog Dduw, cydnabyddwn dy allu a'th fawredd.
Y mae yn perthyn i ti lawer sydd yn ddirgelwch.
Diolch am ddod atom yn Iesu ac am ganiatáu i ni dy weld ynddo.
Diolch am ei eiriau sy'n dweud dy fod ti'n gariad, yn gyfiawnder, yn drugaredd ac yn dosturi.
Diolch am gyffwrdd ein calonnau, agor ein llygaid a goleuo'n meddyliau drwy ei weinidogaeth.
Eto, er hyn oll, nid ydym yn deall y cyfan amdanat, na chwaith yn medru ateb pob cwestiwn amdanat.
Gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur, ac yn chwilio am eiriau a darluniau i'n cynorthwyo i ddeall y dirgel.
Hollalluog Dduw, daethost yn agos atom yn Iesu –
Immanuel,
Duw gyda ni.

Diolchwn dy fod ti gyda ni bob amser – ddoe, heddiw ac yfory.
Yr wyt yn dod atom o hyd yn y Crist a fu farw, a gyfodwyd ac a ddyrchafwyd.
Deui atom yn y cyfarwydd – mewn oedfa, mewn emyn, mewn pennod ac adnod.
Deui atom yn yr anghenus y mae disgwyl i ni wrando ar eu cri.
Deui atom hefyd yn ddirgel, yn yr annisgwyl a'r anghyfarwydd, gan nad wyt yn gaeth i le nac amser.
Gwared ni rhag treulio ein dyddiau'n 'syllu tua'r nef' a chynorthwya ni i fod yn dystion i ti 'hyd eithaf y ddaear'. Amen.

**Neges:**
Fe ymddangosodd y neges yma mewn ffenest siop ddillad: 'Sefydlwyd y busnes hwn dros ganrif yn ôl ac ers hynny yr ydym wedi llwyddo i blesio rhai o'n cwsmeriaid a chythruddo eraill. Yr ydym wedi gwneud arian a cholli arian, yr ydym wedi dioddef effeithiau gwladoli'r diwydiant glo, dogni dillad, rheolaeth y llywodraeth a thalwyr sâl. Buom yn destun trafod; cawsom ein melltithio; fe ddywedwyd celwyddau wrthym, mae lladron wedi dwyn oddi arnom a phobl wedi'n twyllo. Yr unig reswm dros gadw'r busnes i fynd oedd er mwyn gweld beth fyddai'n digwydd nesaf.'

Ganed Iesu. Mae awdur y Llythyr at yr Hebreaid yn sôn am y Duw a lefarodd gynt 'yn y proffwydi' yn llefaru bellach 'mewn Mab'. Beth sy'n digwydd nesaf? Mae ei fywyd yn synnu ac yn rhyfeddu ac yn cynhyrfu'r dyfroedd. Beth sy'n digwydd nesaf? Mae'n cael ei drin fel troseddwr, a daw ei fywyd i ben ar groesbren. Beth sy'n digwydd nesaf? Dridiau yn ddiweddarach caiff ei gyfeillion brofiadau rhyfeddol. Mae'n fyw! Beth sy'n digwydd nesaf? Mae'n ffarwelio â'i ddisgyblion, ond cyn eu gadael mae'n eu comisiynu i barhau â'r gwaith, gan addo bod gyda nhw 'bob amser hyd

ddiwedd y byd'. Beth sy'n digwydd nesaf? 'Fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi hyd eithaf y ddaear.' A ninnau heddiw'n cadw i fynd – er mwyn gweld beth a ddigwydd nesaf.

**Gweddi:**
O Grist, sanctaidd a thragwyddol, Mab y Goruchaf Dduw –
derbyn yn awr ein gweddïau.
O Grist, a fu farw ar y groes ac a gyfodwyd er ein mwyn –
clyw ein cri.
O Grist dyrchafedig –
yr ydym yn galw arnat.
O Grist, Fab Mair, yr wyt ti wedi byw ein bywyd ni –
cynorthwya ni ar daith bywyd.
O Grist, yr wyt ti wedi profi'n marwolaeth ni –
cynnal ni yn nydd profedigaeth.
O Grist, yr wyt ti wedi gorchfygu angau –
cryfha ein cred na all dim ein gwahanu oddi wrth dy gariad.

O Grist,
diolchwn i ti am dy gariad perffaith;
am dy fywyd o ufudd-dod i ewyllys Duw;
am ddatguddio i ni'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd.

O Grist,
trugarha wrth ein methiant a'n dryswch;
trugarha wrth ein pryderon a'n hanwybodaeth;
maddau ein pechodau.

O Grist,
yr wyt ti gyda ni bob amser –
datguddia dy hunan i ni o'r newydd;
amlyga dy hunan i'r byd ym mywyd dy Eglwys;
awn ymlaen gyda'n gilydd yn dy nerth. Amen.

Neges:
'Beth sydd ymlaen fore o Iau ar y bronnydd?'
(Saunders Lewis, 'Difiau Dyrchafael').

Mae Dydd Iau yn ddiwrnod pwysig i Dduw ac i ni. Dywed awdur Genesis mai'r pumed dydd oedd y diwrnod y crëwyd adar yr awyr a'r holl greaduriaid sy'n trigo yn y moroedd. 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch' oedd anogaeth y Duw a roddodd fywyd i bob creadur. Ar bumed diwrnod yr wythnos, dydd Iau arall, dydd Iau Cablyd, miloedd o flynyddoedd yn ddiweddarach, yr oedd cwmni bychan wedi dod ynghyd mewn goruwch ystafell i gynnal hen ddefod. Fe drodd yr hen ddefod yn sacrament newydd pan rannodd Iesu fara a gwin a dweud, 'Gwnewch hyn er cof amdanaf.' Y bara a'r gwin sy'n cynnal y sawl sydd wedi profi bywyd newydd yng Nghrist. Ar bumed diwrnod yr wythnos y dyrchafwyd Iesu. Dydd Iau arall. Iesu'n ymadael. 'Yn nhÿ fy Nhad y mae llawer o drigfannau. Yr wyf

yn mynd i baratoi lle i chwi, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.' Bywyd tragwyddol yw'r addewid. Dydd Iau, diwrnod i ddathlu bywyd yn ei amrywiol agweddau.

Diwrnod i ddiolch am fywyd y greadigaeth.
Diwrnod i ddiolch am fywyd Iesu ynom ni.
Diwrnod i ddiolch am fywyd tragwyddol, y bywyd sy'n dechrau yma.

**Y Fendith:**
'Oherwydd ef yw ffynhonnell, cyfrwng a diben pob peth. Iddo ef y bo'r gogoniant am byth! Amen.' (Rhufeiniaid 11:36)

***Oedfaon Ffydd, gol. Aled Davies***